CGCau (NVQs) mewn Rheolaeth gyda'r Sefydliad ar gyfer Arweinyddiaeth a Rheolaeth (Institute for Leadership and Management)

Yn para: 12-18 mis

Mae'r **CGCau mewn Rheolaeth** yn gymwysterau a ddatblygwyd ar gyfer pawb sy'n rheoli, waeth pa ddiwydiant, proffesiwn neu alwedigaeth rydych chi'n rhan ohonyn nhw na ble yn y DG rydych chi'n gweithio.

Yr unig amod cyn dilyn y CGC mewn Rheolaeth yw ei bod yn angenrheidiol fod gennych ddyletswyddau rheoli yn eich gwaith bob dydd.

Pe byddech yn penderfynu dilyn CGC mewn Rheolaeth fe fydd y rhaglen:

- yn cynnig strwythur a chefnogaeth gadarn
- yn debygol o gymryd 12-18 mis i'w chwblhau
- yn dechrau gyda sesiwn sefydlu mewn grŵp
- yn cynnwys gweithdai grŵp
- yn cynnig cyfarfodydd 1:1 gydag asesydd bob tair i bedair wythnos
- yn cynnwys dau gyfarfod cynghori ar gyfer pob uned
- yn seiliedig ar asesiad gan asesydd cyswllt neu asesydd annibynnol ar gyfer pob uned
- yn cynnwys un sesiwn o arsylwi uniongyrchol ar eich perfformiad fel rheolwr

I ddangos eich hyfedredd fel rheolwr yn unol â'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol mewn Rheolaeth, bydd gofyn i chi gynhyrchu portffolio o dystiolaeth a gaiff ei asesu a'i wirio ar adegau penodol yn ystod y cymhwyster.

Yn ogystal, os oes gennych anghenion dysgu penodol mewn perthynas â'r safonau, gallwn gynnig cymorth i ddod o hyd i gyrsiau hyfforddi traddodiadol a deunyddiau dysgu agored i chi fedru ehangu eich gwybodaeth am reoli.

Y Sefydliad ar gyfer Arweinyddiaeth a Rheolaeth (ILM) yw'r corff dyfarnu ar gyfer y cymwysterau.

Ceir tair lefel o gymwysterau galwedigaethol ym maes rheoli – mae'r lefel yn dibynnu'n llwyr ar natur eich gwaith.

Ar bob lefel, mae'r CGCau Rheolaeth yn cael eu cynllunio yn yr un ffordd: ceir nifer o unedau gorfodol sy'n trafod "prif swyddogaethau" y rheolwr ac yna ceir ystod o unedau dewisol.

Lefel Tri

Mae'r lefel yma'n addas ar gyfer pobl sydd â rôl yn cefnogi neu'n cynorthwyo'r sawl sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau yn y sefydliad. Maen nhw'n tueddu i fod yn oruchwylwyr, yn arweinwyr tîm, yn rheolwyr cynorthwyol neu'n ddirprwy reolwyr. Ar Lefel 3 ceir pedair uned orfodol a thair uned ddewisol.

Lefel Pedwar

Mae'r lefel yma'n addas ar gyfer pobl sydd â chyfrifoldeb o ddydd i ddydd yn y sefydliad. Maen nhw hefyd yn tueddu i fod yn rhan o weithgareddau rheoli ehangach, er enghraifft, recriwtio, disgyblu a rheoli newid. Ar lefel 4 ceir pum uned orfodol a thair uned ddewisol.

Lefel Pump

Mae'r lefel yma'n addas ar gyfer rheolwyr sy'n rheoli pobl eraill a nifer o gyllidebau arwyddocaol. Maen nhw'n tueddu i fod â swyddi uwch yn y sefydliad ac yn cymryd rhan yn y broses o lunio polisi a/neu gynllunio strategol. Ar Lefel 5 ceir pedair uned orfodol a thair uned ddewisol.

Darpariaeth yn Gymraeg

Wrth ddechrau, neu ar unrhyw adeg yn ystod y cymhwyster, gall ymgeiswyr ddewis:

- i gael eu cynghori yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog
- i ymgymryd â'u gwaith ysgrifenedig yn Gymraeg, Saesneg neu'n ddwyieithog
- i gynhyrchu portffolio o dystiolaeth yn Gymraeg, Saesneg neu'n ddwyieithog
- i gael eu harsylwi'n gweithio â chydweithwyr yn Gymraeg, Saesneg neu'n ddwyieithog

Am fanylion pellach, cysylltwch â Clare Grist –
clare@claregrist.co.uk